**Cyfeirnod:** IR850

**Dyddiad cyhoeddi:** 18 Tachwedd 2022

# Defnydd o Edenred

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 8 Tachwedd 2022 yn gofyn am wybodaeth ynghylch y defnydd o Edenred ar gyfer cynllun gwobrwyo staff.

I'w gwneud yn haws cyfeirio atynt, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod mewn inc trwm, ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol:

**Y mathau o dalebau neu gardiau rhodd y mae'r sefydliad yn eu cael gan Edenred, naill ai'n uniongyrchol neu drwy Wasanaeth Masnachol y Goron.**
Trwy gynllun Edenred mae ein cynigion i gyflogeion yn cynnwys;

- Prynu talebau siopa/gweithgareddau ar gyfer lleoliadau manwerthu
- Disgowntiau ar gyfer y gampfa
- Prynu cynllun deintyddol gydag UNUM
- Talebau gofal plant (mae hwn bellach ar gau i newydd-ddyfodiaid)
- Cynllun beicio i'r gwaith (cynllun aberthu cyflog)

**Nifer y talebau neu gardiau rhodd o bob math a brynwyd, a gwerth ariannol pob un.**
Sylwer fod contract Archwilio Cymru gydag Edenred trwy Wasanaethau Masnachol y Goron wedi dechrau ym mis Medi 2021 ac felly nad oes gennym unrhyw wybodaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20.

Rydym wedi darparu gwybodaeth isod yn seiliedig ar adroddiadau a gynhyrchwyd gan Edenred. Darperir gwybodaeth ar ein cyfer yn nhermau blynyddoedd calendr ac nid blynyddoedd ariannol.

<u>Talebau siopa a brynwyd gan staff</u>
2021 – 19 o archebion wedi'u cyflwyno, cyfanswm gwariant o £4,249, cyfanswm arbedion o £209 (fe'u defnyddiwyd yn Curry's, John Lewis, The white company, Marks and Spencer, Tesco, Argos, Costa)

2022 – 52 o archebion wedi'u cyflwyno, cyfanswm gwariant o £6,487, cyfanswm arbedion o £340 (fe'u defnyddiwyd yn Curry's, Wickes, Marks and Spencer, John Lewis, Air BnB, JD, B&Q, Mitchells and Butlers Dining, Tesco a cherdyn Bwytai)

<u>Talebau gofal plant trwy Edenred</u>

2021:

- Hydref-£1743.33 - 15 o bobl
- Tachwedd-£1743.33 - 15 o bobl
- Rhagfyr-£1743.33 – 15 o bobl

2022:

- Ionawr-£1743.33 – 15 o bobl
- Chwefror-£1643.33 – 15 o bobl
- Mawrth-£1866.33 -  15 o bobl
- Ebrill-£1644.33 – 15 o bobl
- Mai-£1644.33 – 15 o bobl
- Mehefin-£1534.33 – 14 o bobl
- Gorffennaf-£1534.33 – 14 o bobl
- Awst-£1485.33 – 14 o bobl
- Medi-£1500.00 – 14 o bobl
- Hydref-£1485.33 – 14 o bobl
- Tachwedd-£1332.33 – 14 o bobl

**Nifer yr aelodau o staff a gafodd pob cerdyn rhodd neu daleb a gwerth ariannol y cardiau rhodd neu'r talebau a ddarparwyd.**

Gweler uchod – rydym wedi darparu dadansoddiad o'r talebau a brynwyd, eu gwerth ariannol a nifer yr aelodau o staff a brynodd y talebau.

**Taliadau misol i gwmni Edenred**

Nid yw Archwilio Cymru'n talu ffi fisol i Edenred.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, cysylltwch â mi'n ddiymdroi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth